# Rhaglen Gyflawn

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**

Dyddiad ac Amser

**3.30 y.h., DYDD GWENER, 27AIN HYDREF, 2023**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

**(Am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni)**


Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**


(Dosbarthwyd 20/10/23)

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**

Aelodau Cyngor

Cyng. Jason McLellan - Cyngor Sir Ddinbych
Cyng. Llinos Medi Huws - Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng. Charlie McCoubrey - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyng. Mark Pritchard - Cyngor Wrecsam
Cyng. Ian Roberts - Cyngor Sir y Fflint
Cyng. Dyfrig L Siencyn - Cyngor Gwynedd

Aelod Eryri

Cyng. Annwen Hughes – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Prif Swyddogion

Dafydd Gibbard - Cyngor Gwynedd
Dylan Williams - Cyngor Sir Ynys Môn
Rhun ap Gareth - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Neal Cockerton - Cyngor Sir y Fflint
Graham Boase - Cyngor Sir Ddinbych
Ian Bancroft - Cyngor Wrecsam
Emyr Williams – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Swyddogion Statudol

Dewi Aeron Morgan – Prif Swyddog Cyllid
Iwan G Evans – Swyddog Monitro

# R H A G L E N


**1. CADEIRYDD**

Penodi Cadeirydd ar gyfer 2023/24.

**2. IS-GADEIRYDD**

Penodi Is-gadeirydd ar gyfer 2023/24.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**6. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** 4 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mai, 2023 fel rhai cywir.

**7. RHAGOLWG O WARIANT 2023-24 CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD** 7 - 11

Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC) a Sian Pugh, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol i gyflwyno'r adroddiad.

**8. YMESTYN CYFNOD SECONDIAD I ROL PRIF WEITHREDWR DROS DRO Y CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG** 12 - 14

Ystyried ymestyn cyfnod penodiad Alwen Williams yn Brif Weithredwr rhan-amser Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd, ar sail secondiad, hyd at ddiwedd Mawrth 2024.

**9. BRAND AR GYFER CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD** 15 - 16

Alwen Williams, Prif Weithredwr Dros Dro y CBC i gyflwyno'r adroddiad.

# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD DYDD GWENER, 26 MAI 2023

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais: Cyng. Mark Pritchard (Is-gadeirydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Cyng. Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Cyng. Jason McLelllan (Cyngor Sir Ddinbych), Cyng. Ieuan Williams (yn dirprwyo ar ran Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn), Cyng. Paul Johnson (yn dirprwyo ar gyfer Arweinydd Cyngor Sir y Fflint) a Cyng. Nia Jeffreys (yn dirprwyo ar ran Arweinydd Cyngor Gwynedd)

Aelod Eryri - Cyng. Annwen Hughes (Parc Cenedlaethol Eryri).

Prif Swyddogion: Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd), Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), Emyr Williams (Parc Cenedlaethol Eryri), David Fitzsimon (yn dirprwyo ar ran Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), a Gary Williams (yn dirprwyo ar ran Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych)

Swyddogion yn bresennol: Alwen Williams (Prif Weithredwr y CBC), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dewi Morgan (Swyddog Adran 151), Siân Pugh (Dirprwy Swyddog Adran 151) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ymddiheuriad.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 24 Mawrth, 2023, fel rhai cywir.

**5. CYFANSODDIAD CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Monitro.

**PENDERFYNIAD**

1. Mabwysiadu y canlynol i'r cynnwys yn y Cyfansoddiad:

   - Côd Ymddygiad Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig
   - Cylch Gorchwyl Is Bwyllgor Safonau

- Rheoliadau Cytundebau a Materion Cyfreithiol
- Rheolau Gweithdrefn Contractau

2. Dirprwyo hawl i'w Swyddog Monitro wneud newidiadau golygyddol i'r Rheolau Sefydlog ar gyfer eu cyhoeddi.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan gadarnhau bod angen cyhoeddi cyfansoddiad er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Cyd Bwyllgorau Corfforaethol (Cyffredinol) (Cymru) 2022 a Deddf Llywodraeth Leol 2000. Nodwyd bod angen sicrhau holl ddogfennaeth er mwyn sicrhau sylfaen i briodoldeb prosesau.

Manyliwyd ar bedair elfen o'r cyfansoddiad sef:

**Côd Ymddygiad Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig**
Cyflwynwyd y Côd ymddygiad statudol heb addasiadau. Cadarnhawyd byddai modd diwygio'r côd hwn yn y dyfodol drwy sefydlu a chynnal Pwyllgor Safonau i'r Cydbwyllgor Corfforedig.

**Cylch Gorchwyl Is Bwyllgor Safonau**
Nodwyd ei fod yn synhwyrol i aelodaeth Is-bwyllgor Safonau'r Cydbwyllgor Corfforedig gael eu hethol o'r aelodau presennol ar bwyllgorau safonau awdurdodau lleol rhanbarth y gogledd a Parc Cenedlaethol Eryri. Eglurwyd byddai hyn yn lleihau baich hyfforddi. Cynigiwyd byddai'r Pwyllgor Safonau yn cynnwys 7 aelod - un o Parc Cenedlaethol Eryri ac un o bob awdurdod lleol sy'n rhan o'r Cyd-Bwyllgor.

**Rheoliadau Cytundebau a Materion Cyfreithiol**
Eglurwyd byddai'r rheoliadau hyn yn cadarnhau sut bydd cytundebau yn cael eu arwyddo a phwy bydd gan yr hawliau i wneud hynny.

**Rheolau Gweithdrefn Contractau**
Awgrymwyd mabwysiadu fframwaith Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd a gellir adolygu'r rheolau er mwyn bod yn benodol ar gyfer y Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn y dyfodol.

## 6. ADRODDIAD ALLDRO A FFURFLEN FLYNYDDOL 2022/23

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Swyddog Adran 151 a'r Dirprwy Swyddog Adran 151.

**PENDERFYNIAD**

1. Nodi a derbyn gwir wariant ac incwm y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ar gyfer 2022/23 fel y'i cyflwynwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad.
2. Cael cymeradwyaeth y Cyd-Bwyllgor Corfforedig i'r tanwariant yn 2022/23 gael ei drosglwyddo i gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi ar gyfer ariannu costau unwaith ac am byth yn y dyfodol.
3. Cymeradwyo Ffurflen Flynyddol Swyddogol y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ar gyfer 2022/23 (amodol ar Archwiliad Allanol), yn unol â'r amserlen statudol, sef 31 Mai 2023. Mae wedi'i gwblhau a'i ardystio'n briodol gan Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd fel Swyddog Cyllid Statudol y Cyd-Bwyllgor Corfforedig (Atodiad 2).

**TRAFODAETH**

Cadarnhawyd bod yr adroddiad alldro yn cadarnhau gwariant a balansau'r Cyd-Bwyllgor yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Eglurwyd bod tanwariant o £238,098 yng nghyllideb y

Cyd-Bwyllgor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2022/23. Nodwyd bod tanwariant ym mhob agwedd o wariant y Cyd-Bwyllgor gan eithrio Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid a Chyfreithiol (gan gynnwys y Swyddog Monitro).

Eglurwyd bod amcangyfrif 2022 o boblogaethau'r awdurdodau lleol wedi eu defnyddio yn hytrach na chanlyniadau'r cyfrifiad gan mai dyna oedd wedi ei gytuno wrth osod y gyllideb wreiddiol. Eglurwyd fod ffigyrau poblogaeth gwahanol yn cael eu defnyddio ar gyfer Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy i ddyrannu costau'r swyddogaethau cynllunio o'i gymharu â'r holl gostau eraill, gan fod y costau cynllunio yn cael eu dyrannu i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer y boblogaeth sy'n byw o fewn ffiniau'r Parc yn hytrach nag i'r cynghorau.

Dechreuodd y cyfarfod am 14:05yp a daeth i ben am 14:25yp.

___________________________________

(Cadeirydd)

# ADRODDIAD I GYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

# 27/10/2023

**Teitl:** Rhagolwg o wariant 2023/24 Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd

**Awduron:** Dewi A Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC)
Sian Pugh, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu rhagolwg o wariant y Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) ar gyfer 2023/24.

1.2 Er mwyn gweithredu'n effeithiol, mae angen i'r Cyd-Bwyllgor fod yn ymwybodol o'i sefyllfa ariannol yn erbyn ei gyllideb flynyddol gymeradwy.

## 2. Y PENDERFYNIADAU A GEISIR

**2.1 Nodi a derbyn rhagolwg o wariant y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ar gyfer 2023/24 fel y cyflwynir yn Atodiad 1.**

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1 Nodi tanwariant a ragwelir o £422,846 yn erbyn ei gyllideb yn 2023/24, sy'n bennaf oherwydd yr oedi wrth benodi staff i'r CBC. Anelir i gael yr adnodd rheoli prosiect newydd sydd wedi'i adnabod (ar sail secondiad) yn cychwyn ym mis Tachwedd.

## 4. CEFNDIR

4.1 Yn ei gyfarfod ar 13 Ionawr 2023, cymeradwyodd y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ei gyllideb ar gyfer 2023/24.

4.2 Cyflwynwyd adroddiad pellach ar "Adnoddau Swyddogaethau Statudol" i'r CBC yn ei gyfarfod ar 24 Mawrth 2023. Roedd hyn yn cynnwys strwythur staffio diwygiedig ar gyfer y CBC gyda'r gyllideb staffio trafnidiaeth sy'n weddill yn cael ei throsglwyddo i'r pennawd Ymgynghorwyr Allanol i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â gofynion ymgynghorol y broses Cynllunio Trafnidiaeth Ranbarthol. Mae'r trosglwyddiadau hyn wedi'u cynnwys yng nghyllideb 2023/24 a ddangosir yn Atodiad 1.

4.3 Parheir i fonitro ac adolygu'r gyllideb drwy gydol blwyddyn ariannol 2023/24, a chyflwynir adroddiad chwarter tri i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig ym mis Ionawr 2024.

## 5. RHAGOLWG O WARIANT 2023/24 FESUL PENNAWD

5.1 Mae Atodiad 1 yn darparu dadansoddiad manwl o ragolygon gwariant fesul pennawd yn erbyn ei gyllideb flynyddol.

5.2 Rhagwelir y bydd y sefyllfa alldro net ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2023/24 yn danwariant o £422,846.

<u>Gweithwyr</u>

5.3 Rhagwelir tanwariant o £309,573 ar y pennawd gweithwyr ar gyfer 2023/24.

5.4 Mae cyllideb y gweithwyr yn cynnwys Prif Weithredwr dros dro (2 ddiwrnod yr wythnos), Cynorthwyydd Personol (1 diwrnod yr wythnos), Rheolwr (Swyddogaethau Statudol), Rheolwr Prosiect (1 diwrnod yr wythnos), tair swydd Cynllunio ac un swydd Trafnidiaeth. Mae'r gwariant a ragwelir hyd at fis Mawrth 2024 yn cynnwys amser Cyfarwyddwr Portffolio Uchelgais Gogledd Cymru i gyflawni rôl y Prif Weithredwr dros dro tan fis Mawrth 2024 yn ogystal â chefnogaeth y Cynorthwyydd Gweithredol am un diwrnod yr wythnos. Nid oes unrhyw apwyntiadau pellach wedi'u gwneud hyd yma, ond mae'r sefyllfa alldro ar gyfer 2023/24 yn adlewyrchu secondiad Rheolwr Prosiect sy'n debygol o ddechrau ym mis Tachwedd 2023.

5.5 Mae cost lwfansau aelodau lleyg Is Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu y Cyd-Bwyllgor yn seiliedig ar i ddau bwyllgor gael ei gynnal erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Teithio

5.6 Mae'r amcan gost o £1,000 yn seiliedig ar amcangyfrif o lwfansau teithio hanfodol a chynhaliaeth staff a fydd ei angen yn ystod y chwe mis nesaf, sydd yn rhoi tanwariant o £5,000 ar y pennawd teithio yn 2023/24.

Cyflenwadau a gwasanaethau

5.7 Rhagwelir tanwariant o £168,060 ar y pennawd cyflenwadau a gwasanaethau ar gyfer 2023/24. Mae £137,585 o'r tanwariant hwn ar ymgynghorwyr allanol, £15,990 ar ffioedd Archwilio Cymru ac mae'r £14,485 sy'n weddill wedi ei ledaenu ar draws y penawdau eraill.

Gwasanaethau Cefnogol

5.8 Rhagwelir tanwariant o £20,213 ar y pennawd gwasanaethau cefnogol ar gyfer 2023/24. Mae'r tanwariant oherwydd gostyngiad yn nifer y cyfarfodydd ffurfiol yn ogystal â lleihad mewn costau cysylltiedig â staff gyda'r CBC ddim yn debygol o gyflogi staff tan y flwyddyn ariannol nesaf.

Cronfa

5.9 Fel rhan o adroddiad alldro 2022/23, cymeradwyodd y CBC i'r tanwariant o £238k gael ei drosglwyddo i'r gronfa i ariannu costau unwaith ac am byth yn y dyfodol. Roedd £80k o'r gronfa hon wedi ei chynnwys fel rhan o gyllideb 2023/24 y CBC, ond oherwydd sefyllfa ariannol bresennol y CBC, ni fydd angen y dyraniad hwn eleni.

Grant Llywodraeth Cymru

5.10 Ar hyn o bryd mae'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r swyddogion trafnidiaeth yng ngogledd Cymru yn gweithio ar gynllun gweithredu i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru i wneud cais am gyllid i gyflawni'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh). Bydd y cynllun hwn yn nodi sut y bydd y CTRh yn cael ei gyflawni a'r adnoddau a'r gyllideb sydd eu hangen i gefnogi'r gwaith hwn. Os dyfernir y grant hwn, bydd yn cyfrannu tuag at gostau staff ac ymgynghori, ond gan nad yw'r llythyr cynnig grant wedi'i dderbyn eto, nid yw wedi'i gynnwys yn y ffigyrau a ragwelir yn yr adolygiad hwn.

**6. CYFRANIADAU PARTNERIAID**

6.1 Cymeradwywyd yr ardoll ar yr awdurdodau cyfansoddol ar gyfer 2023/24 gan y CBC yn ei gyfarfod ar 13 Ionawr 2023. Mae'r ardoll yn parhau i fod heb ei thalu gan dri awdurdod gydag un awdurdod yn dal i fod ag ardoll 2022/23 yn ddyledus.

**7. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD**

7.1 Mae Prif Weithredwr dros dro y CBC yn ogystal â'r Swyddog Monitro wedi cyfrannu at yr adolygiad hwn.

**ATODIADAU**

Atodiad 1 - Cyllideb Refeniw 2023/24 Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd – Adolygiad Medi 2023.

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i’w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**ii. Swyddog Cyllid Statudol:**

Awdur yr adroddiad hwn.

**Cyllideb Refeniw 2023/24 Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd - Adolygiad Medi 2023** **Atodiad 1**

| | Cyllideb | | | | Rhagolwg gwariant | | | | Rhagolwg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cynllunio Strategol** | **Trafnidiaeth** | **Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC)** | **Cyfanswm Cyllideb** | **Cynllunio Strategol** | **Trafnidiaeth** | **Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC)** | **Cyfanswm Gwariant** | **Gorwaraint / (Tanwariant)** |
| **Gwariant** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** |
| **Gweithwyr** | | | | | | | | | |
| Gwariant Gweithwyr (Cyflog, Y.G. a Blwydd-dal) | 212,400 | 107,060 | 92,630 | 412,090 | 11,874 | 11,874 | 81,314 | 105,062 | (307,028) |
| Lwfans aelodau lleyg | 0 | 0 | 5,090 | 5,090 | 0 | 0 | 2,545 | 2,545 | (2,545) |
| **Cyfanswm Gweithwyr** | **212,400** | **107,060** | **97,720** | **417,180** | **11,874** | **11,874** | **83,859** | **107,607** | **(309,573)** |
| **Teithio** | | | | | | | | | |
| Teithio a chynhaliaeth | 3,000 | 2,000 | 1,000 | 6,000 | 250 | 250 | 500 | 1,000 | (5,000) |
| **Cyfanswm Teithio** | **3,000** | **2,000** | **1,000** | **6,000** | **250** | **250** | **500** | **1,000** | **(5,000)** |
| **Cyflenwadau a gwasanaethau** | | | | | | | | | |
| Offer a chyfarpar | 4,500 | 3,000 | 0 | 7,500 | 750 | 750 | 0 | 1,500 | (6,000) |
| Cyflenwadau amrywiol | 1,000 | 1,000 | 1,000 | 3,000 | 500 | 500 | 0 | 1,000 | (2,000) |
| Ymgysylltu a chyfarfodydd | 770 | 770 | 3,830 | 5,370 | 385 | 385 | 1,915 | 2,685 | (2,685) |
| Ffioedd Archwilio Cymru | 0 | 0 | 21,100 | 21,100 | 0 | 0 | 5,110 | 5,110 | (15,990) |
| Ymgynghorwyr allanol | 132,500 | 132,670 | 10,000 | 275,170 | 66,250 | 66,335 | 5,000 | 137,585 | (137,585) |
| Yswiriant | 7,500 | 7,500 | 0 | 15,000 | 5,600 | 5,600 | 0 | 11,200 | (3,800) |
| **Cyfanswm Cyflenwadau a gwasanaethau** | **146,270** | **144,940** | **35,930** | **327,140** | **73,485** | **73,570** | **12,025** | **159,080** | **(168,060)** |
| **Gwasanaethau Cefnogol** | | | | | | | | | |
| Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid | 0 | 0 | 26,610 | 26,610 | 0 | 0 | 26,610 | 26,610 | 0 |
| Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro) | 7,500 | 7,500 | 15,000 | 30,000 | 7,500 | 7,500 | 15,000 | 30,000 | 0 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 6,880 | 6,280 | 17,760 | 30,920 | 1,993 | 1,993 | 9,803 | 13,789 | (17,131) |
| Technoleg Gwybodaeth | 2,310 | 1,540 | 3,120 | 6,970 | 384 | 384 | 3,120 | 3,888 | (3,082) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Cefnogol** | **16,690** | **15,320** | **62,490** | **94,500** | **9,877** | **9,877** | **54,533** | **74,287** | **(20,213)** |
| **Cyfanswm Cyllideb Gwariant** | **378,360** | **269,320** | **197,140** | **844,820** | **95,486** | **95,571** | **150,917** | **341,974** | **(502,846)** |
| **Cyfraniad o gronfeydd** | | | (80,000) | **(80,000)** | | | 0 | **0** | **80,000** |
| **Cyfanswm Cyllideb Gwariant Net** | **378,360** | **269,320** | **117,140** | **764,820** | **95,486** | **95,571** | **150,917** | **341,974** | **(422,846)** |

CYFARFOD: **Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (y CBC)**

DYDDIAD: **27 Hydref 2023**

PWNC: **Ymestyn Cyfnod Secondiad i rôl Prif Weithredwr y CBC**

SWYDDOG CYSWLLT: **Geraint Owen, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cyngor Gwynedd**

---

**PENDERFYNIAD A GEISIR:**

**Ymestyn cyfnod penodiad Alwen Williams yn Brif Weithredwr rhan-amser Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd, ar sail secondiad, hyd at ddiwedd Mawrth, 2024.**

---

## 1. Cyflwyniad / Cefndir

Yn ei gyfarfod ar 22 Gorffennaf 2022, gwnaeth Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd adolygu rôl y Prif Weithredwr ac, ar ôl ystyried yr opsiynau, penderfynwyd cyflwyno cais i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ryddhau rhan o amser ei Cyfarwyddwr Portffolio i gyflawni rôl Prif Weithredwr y Cyd Bwyllgor Corfforedig, o leiaf hyd at 31 Mawrth 2023.

Dewiswyd yr opsiwn o gyflwyno'r cais yma i'r Bwrdd Uchelgais gan ei fod yn debygol byddai y Bwrdd Uchelgais yn cael ei ymgorffori'n rhan o'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig, y byddai cost sylweddol uwch pe bai swydd Prif Swyddog annibynnol wedi'i greu, a gan nad oedd digon o amser ar gael i un o'r 6 Prif Weithredwr awdurdod lleol oruchwylio'r gwaith o ddatblygu'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig.

Adroddwyd ar y pryd bod penderfyniad mewn egwyddor, i drosglwyddo y Bwrdd Uchelgais i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig, eisoes wedi ei wneud gan y Cynghorau ac yn dilyn y newidiadau deddfwriaethol y byddai modd mynd i'r afael â'r broses yma yn ystod y misoedd canlynol. Fel rhan o unrhyw drosglwyddiad byddai sefyllfa holl staff y Swyddfa Portffolio yn cael ei gyfarch.

Fe gofiwch bod angen i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gymeradwyo rhyddhau y Cyfarwyddwr Portffolio cyn i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig ddod i benderfyniad ar benodi Prif Weithredwr dros-dro. Gwnaed hynny yng nghyfarfod y Bwrdd Uchelgais ar 30 Medi 2022, pryd y cytunwyd y gellid rhyddhau rhan o amser y Cyfarwyddwr Portffolio i gyflawni rôl Prif Weithredwr y Cyd-Bwyllgor ar sail secondiad.

O ganlyniad, bu i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig, yn ei gyfarfod ar y 7 o Hydref, 2022 gymeradwyo penodiad Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio y Bwrdd Uchelgais, fel Prif Weithredwr rhan-amser, ar sail secondiad, hyd nes caiff y swydd ei hadolygu eto gan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2022/23.

Daeth y trefniant dros-dro hwn, ple bo Alwen Williams yn cyflawni swyddogaeth fel Prif Weithredwr y Cyd-Bwyllgor Corfforedig am ddau diwrnod pob wythnos, yn weithredol ar y 10 o Hydref, 2022.

Yn wyneb y ffaith bod nifer o faterion allweddol angen sylw pellach cyn y gallai'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig benodi Prif Weithredwr ar sail parhaol e.e. trosglwyddiad tebygol staff i gyflogaeth y Cyd-Bwyllgor, ail-ymwelwyd a'r penderfyniad a wnaed yn y cyfarfod ar y 7 o Hydref, 2022 yng nghyfarfod y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ar y 24 o Fawrth eleni ac hynny gan bod gofyn adolygu cyfnod y secondiad cyn 31 Mawrth, 2023.

Yn y cyfarfod hwnnw, a gyda chydsyniad y Bwrdd Uchelgais i'w rhyddhau ymhellach, cymeradwywyd estyniad i gyfnod penodiad Alwen Williams fel Prif Weithredwr dros-dro tan 30 Medi, 2023.

## 2. Sefyllfa Interim Ôl-Medi 2023

Fel y bydd aelodau'r Cyd-Bwyllgor yn ymwybodol, mae peth gwaith eto i'w gyflawni cyn y gellir penodi Prif Weithredwr ar sail parhaol ac yn wyneb hynny mae angen i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig sicrhau Prif Weithredwr ar sail dros-dro am un cyfnod pellach arall hyd at y 31 o Fawrth, 2024. Fel modd o sicrhau bod pob cefnogaeth posib ar gael i'r Prif Weithredwr dros-dro ar gyfer sefydlu'r Cyd-Bwyllgor Corfforaethol yn derfynol erbyn y 1 o Ebrill, 2024, mae adnodd ychwanegol wedi'i adnabod ac mae adroddiad y Prif Weithredwr dros-dro, sydd yn eitem arall ar raglen y cyfarfod hwn, yn ymhelaethu ar fanylion y gefnogaeth honno.

Cyflwynir adroddiad i gyfarfod o'r Bwrdd Uchelgais yn gynharach yn y dydd ar y 27 o Hydref, 2023 yn ceisio ei gytundeb i ymestyn y cyfnod y mae'n fodlon rhyddhau ei Gyfarwyddwr Portffolio. Gellir adrodd ymateb y Bwrdd i'r cais hwnnw ar lafar yng nghyfarfod y Cyd-Bwyllgor Corfforedig cyn ystyried yr eitem hon.

Fe'ch atgoffir bod y Bwrdd Uchelgais, drwy Cyngor Gwynedd fel Awdurdod Lletya, yn parhau'n gyflogwr cytundebol i Alwen Williams ac mae'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn digolledu'r Bwrdd Uchelgais am y costau uniongyrchol ac anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r secondiad. Rhoddwyd yr awdurdod i Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd wneud y trefniadau angenrheidiol o fewn yr hyblygrwydd sydd yng nghyllideb y Cyd-Bwyllgor.

## ARGYMHELLIAD

**Gofynnir i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd gytuno i ymestyn secondiad rhan-amser Alwen Williams i rôl Prif Weithredwr y CBC hyd at ddiwedd Mawrth, 2024, yn unol â'r penderfyniad a geisir (ac yn amodol ar gytundeb Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i'w rhyddhau am y cyfnod dan sylw).**

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro**
Rwyf wedi cael mewnbwn i'r adroddiad ac yn fodlon gyda priodoldeb yr argymhelliad

**Swyddog Cyllid Statudol**
Mae Cyllideb y Cydbwyllgor Corfforedig ar gyfer 2023/24, a gymeradwywyd yn Ionawr 2023, yn cynnwys amser y Prif Weithredwr am ddau ddiwrnod yr wythnos. Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir o safbwynt priodoldeb ariannol.

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD
27 Hydref, 2023

| | |
|---|---|
| TEITL: | Brand ar gyfer Cyd-Bwyllgor Corfforedig Rhanbarth y Gogledd |
| AWDUR: | Alwen Williams, Prif Weithredwr dro do y CBC |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno brand arfaethedig ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig Rhanbarth y Gogledd.

## 2. PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Cymeradwyo'r brand arfaethedig ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

## 3. CEFNDIR

3.1. Bydd angen i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig fodoli a gweithredu o dan frand. O ystyried y cydweithio rhanbarthol a'r dull gweithredu o ddylunio a datblygu Uchelgais Gogledd Cymru fel hunaniaeth, sy'n cynrychioli Gogledd Cymru fel partneriaeth ranbarthol, ac o ystyried y pwerau i weithredu fel endid cyfreithiol o dan y CBC. Cynigir bod y CBC yn cynnal ac yn mabwysiadu logo Uchelgais Gogledd Cymru, gyda phapurau'r bwrdd yn nodi penderfyniadau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig gyda'r logo fel y dangosir.

Cyd-Bwyllgor Corfforedig
Gogledd Cymru
North Wales
Corporate Joint Committee

3.2. Mae hwn yn ddull tebyg i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd a fydd yn gweithredu o dan logo a brand presennol y Fargen Ddinesig.

3.3. Mae'r dull gweithredu yn dangos cydlyniant ac eglurder i fuddsoddwyr a rhanddeiliaid, yn cadw pethau'n syml wrth gyfathrebu â dylanwadwyr ac yn golygu ein bod yn gallu trosoli buddsoddiad a wnaed eisoes yn ein hunaniaeth fel rhanbarth sy'n gweithio gyda'i gilydd.

## 4. GOBLYGIADAU ARIANNOL

4.1. Trwy fabwysiadu brand presennol Uchelgais Gogledd Cymru a chreu is-frand ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforedig fel y dangosir yn 3.1. ychydig iawn o gostau fydd yn gysylltiedig â'r penderfyniad a gellir eu cwrdd o'r cyllidebau presennol.

## 5. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

5.1. Gweler sylwadau'r Swyddog Monitro.

---

## SYLWADAU SWYDDOGION STATUDOL

i. **Swyddog Monitro:**

"Ni fydd yr enw statudol a osodir yn y rheoliadau sefydlu yn cael eu heffeithio drwy fabwysiadu y logo yma. Yn y Gymraeg bydd hyn yn parhau yn "Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd" ac yn y Saesneg , "North Wales Corporate Joint Committee" a dyma'r ffurf fydd yn cae lei ddefnyddio ar unrhyw ddogfennau ffurfiol. Fodd bynnag a chan ddilyn yr ymarfer mewn CBC's eraill ar draws Cymru mae'r branding neu logo yn gorfod cyflawni ystod o amcanion cyfathrebu ac yn fwy disgrifiol mewn natur. Rwy'n fodlon y gellir mabwysiadu y cyfeiriad yma."

ii. **Swyddog Cyllid Statudol:**

"Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol."